Sinfonia Cymru



# Cynorthwy-ydd Cyngherddau a Phrosiectau Pecyn Recriwtio

Ionawr 2024

"I had a wonderful time working with the players and was impressed by how aware and musically generous they are. It gives me hope that we will get a good wave of players into the older professional ensembles and we can start to change the culture for the better"

Rakhi Singh, guest co-director, *The Singh Sisters*, Sep 21

"The orchestra is unbelievably friendly and allows for so much creative input from the players. Programming always has an interesting angle and we are encouraged to come up with ideas for projects."

Amy Roberts, Oboe, co-producer of *Players' Picks*, May 21

"The biggest thank you to you all for making last night happen and for giving us the freedom and opportunity to create it. It was quite a dream come true and really felt like we were a big family. I felt truly blessed! I also couldn't think of a better way to end my time as a player in the orchestra."

Simmy Singh, co-director, *The Singh Sisters*, Sep 21

"Thank you so much for inviting me to lead the Curate project. It has been an absolute highlight for me, and I really appreciate all of your help, support and trust in what was a new step for me as an artist…I hope to further develop these ideas, exploring other subject matters, as I really enjoyed the format and experience of curating."

Delia Stevens, curator of *AlgoRhythms*, Dec 19

"One of my favourite things is how everyone is encouraged to contribute to the musical discussion. All opinions are valued in both chamber and orchestral settings which is really refreshing."

Deni Teo, Cello

"I just wanted to say thank you for the great opportunity to curate my own music. The experience has opened up new paths and I definitely feel I would like to do this as an integral part of my music life."

Abel Selaocoe, curator of *MotherTongue*, May 2019

"Without doubt my favourite thing about working with Sinfonia Cymru is that it feels like such a collaborative environment. There's not one voice we have to agree to and follow – it feels like every player is equally valued and respected. I also love how diverse it is, each project is unique and that makes it so rewarding for us as players, as well as regular audience members."

Carys Evans, Horn

"There is an incredible culture at Sinfonia Cymru that exists across the players and the management; everyone has a can-do attitude and a generous spirit. This has a direct and quite special effect on the music-making."

Caroline Pether, former Leader

## Am Sinfonia Cymru

Ffres, egniol a gwefreiddiol. Mae ein cerddorfa ni yma i ysgwyd pethe a phrofi bod cerddoriaeth glasurol i bawb.

Mae ein nôd yn syml, ry'n ni am sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle i fwynhau perfformiadau cerddorol safonol. Ry'n ni'n mynd gam ymhellach i sicrhau bod ein cyngherddau'n fforddadwy ac yn hygyrch. Ry'n ni'n dod â'r gerddoriaeth i galon cymunedau Cymreig, yn perfformio mewn lleoliadau sy'n gwneud i'r gynulleidfa deimlo'n gartrefol; o neuaddau pentref i dafarndai, o siopau ffrwythau a llysiau i gartrefi gofal, ysgolion a thu hwnt! Ry'n ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eich bod chi'n mwynhau eich amser gyda ni.

Ry'n ni'n gweithio gyda rhai o'r cerddorion ifanc gorau o Gymru a'r byd, pob un dan 30 oed. Pan mae nhw gyda ni, ry'n ni'n eu helpu nhw i dyfu. Byddwn ni byth yn dweud wrthynt beth i wneud. Byddwn ni'n eu cefnogi nhw i arwain. Ry'n ni'n eu meithrin i guradu a rhaglenni cyngherddau eu hunain ac yn eu ysbrydoli i archwilio ffyrdd newydd o gydweithio. Dyma pam bod ein cyngerddau ni yn ffres, cyffrous a chofiadwy i'n cynulleidfaoedd.

Mae mwy! Ry'n ni'n gwahodd artistiaid anhygoel i gydweithio gyda'n cerddorion; cantorion a cherddorion gwerin Cymreig fel Casi Wyn, Cerys Hafana, Patrick Rimes, Bryn Terfel, Catrin Finch a Kizzy Crawford, a sêr rhyngwladol fel Jess Gillam, Lucienne Renaudin Vary ac Abel Selaocoe. Ry'n ni'n angerddol am ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o sêr cerddorol o Gymru, dyma pam ein bod ni'n trefnu gweithdai cerddoriaeth am ddim mewn ysgolion a cholegau fel rhan o'n rhaglen.

Pan mae'n dod i'n steil, does dim 'black tie' a dydy o byth yn ddiflas. Clasurol yn bennaf, ond ry'n ni'n ymbŵeru ein cerddorion i roi stamp eu hunain arno. Byddwch chi'n ein gweld ni'n cymysgu arddulliau gan daflu jazz, cerddoriaeth byd, blues, gwerin, roc, pop ac a cappella mewn i'r rhaglen. Disgwyliwch yr annisgwyl, ond safonol bob amser.

Ry'n ni'n dîm bach, brwdfrydig, yn angerddol am wneud argraff fawr ar gymunedau Cymreig a datblygu cerddorion ifanc talentog. Dy'n ni ddim yn eistedd yn llonydd. Yn 2023, wnaethon ni gau ein swyddfa yng Nghaerdydd a sefydlu partneriaeth Hafan arloesol gyda chanolfannau cymunedol Cymreig. Mae ein tîm bellach wedi'n lleoli yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Ysgol Gynradd Holton Y Barri a Glan yr Afon, Casnewydd. Beth wnaethon ni gyda'r arian rhent? Buddosddi mewn prosiectau ychwanegol a theithiau ar gyfer ein cynulleidfaoedd yng Nghymru.

Dyma ni. Ry'n ni wedi gosod y darlun. Ry'n eich herio chi i ddod i brofi'r cyfan.

**Gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, a nodau strategol**

**Gweledigaeth** EIN GOBAITH TYMOR-HIR AM GERDDORIAETH GLASUROL YNG NGHYMRU

- Ein gweledigaeth yw y bydd pawb yng Nghymru'n cael cyfle i sicrhau mynediad at gerddoriaeth glasurol ac y bydd llawer mwy o bobl, o gefndiroedd amrywiol, yn cymryd rhan mewn, yn cael eu hysbrydoli gan, ac yn mynychu cerddoriaeth glasurol.

**Cenhadaeth** EIN PWRPAS, SY'N GYRRU POPETH A WNAWN

- Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cerddorion ifanc proffesiynol o'r radd flaenaf o bob rhan o'r DU, a'u cefnogi yng nghamau cyntaf eu gyrfaoedd er mwyn rhoi'r dechrau gorau posib iddynt. Drwy wneud hyn, byddwn yn darparu profiadau cerddorol eithriadol i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr ledled Cymru.

**Gwerthoedd** Y GWERTHOEDD SY'N TANATEGU EIN GWAITH

- Rydyn ni wrth ein bodd yn creu cerddoriaeth gyda'n gilydd, ac yn cyfathrebu'r ysbryd hwnnw i'n cynulleidfaoedd – dyna pam mae ein perfformiadau mor arbennig.
- Rydyn ni'n cydweithio mewn dull agored, cynhwysol a cholegol – dy'n ni ddim yn creu rhwystrau, ac rydyn ni'n parchu barn pawb.

**Egwyddorion Strategol** YR EGWYDDORION STRATEGOL SY'N EIN HELPU I GYFLAWNI EIN CENHADAETH

- Byddwn yn cynyddu'r nifer o gyfleoedd perfformio rydym yn eu darparu ar gyfer ein chwaraewyr, gan sicrhau ystod eang o weithgareddau iddynt hwy ac i'n cynulleidfaoedd.
- Bydd rhai elfennau o'r rhaglen dan arweiniad y chwaraewyr, gan annog cerddorion i
- gyfrannu syniadau am raglenni a rhoi cyfle iddynt greu elfennau perfformio arloesol.
- Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i weithio gyda cherddorion o genres eraill, gan roi cyfle i chwaraewyr weithio y tu allan i'r fframwaith clasurol arferol.
- Bydd rhai agweddau o'n rhaglennu yn herio'r status quo – er y byddwn yn parhau i gyflwyno perfformiadau mewn dull traddodiadol / cerddorfaol, byddwn hefyd yn arbrofi gyda fformatau sy'n herio'r dull cerddoriaeth glasurol draddodiadol, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud cerddoriaeth glasurol yn fwy ystyrlon i gynulleidfa ehangach a mwy amrywiol.
- Byddwn yn mynd â'n cerddoriaeth i ganolfannau gwledig yn ogystal â rhai trefol, gan weithio mewn dull ymatebol gydag eiriolwyr lleol dros y tymor hirach, fel ein bod yn bwrw gwreiddiau o fewn y cymunedau rydym yn teithio iddynt. Dros gyfnod y cynllun hwn, byddwn yn cyflawni cynnydd sylweddol ym maint y gwaith a gyflenwir mewn lleoliadau gwledig.
- Byddwn yn chwilio am ffyrdd o gynyddu ein cynhwysiant, yn cynnwys trwy gydweithredu artistig, recriwtio chwaraewyr newydd, gweithio mewn dulliau arloesol, a datblygu cynulleidfa.
- Byddwn yn mynd i'r afael â'r canfyddiad o gerddoriaeth glasurol fel rywbeth 'nad yw ar gyfer pobl fel fi' a sicrhau bod ein perfformiadau'n hygyrch. Byddwn yn cadw prisiau tocynnau'n isel, ac yn cyfathrebu mewn modd agored a deniadol, gan ddefnyddio iaith ddealladwy. Byddwn yn annog artistiaid i gyfathrebu â'r gynulleidfa yn ystod ein perfformiadau.

**Swydd-ddisgrifiad**

**Y tîm**

Bydd y Cynorthwy-ydd Cyngherddau a Phrosiectau yn cefnogi Joseph Evans, Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau, gan ei helpu i gyflenwi ymarferion, cyngherddau a gweithdai. Aelodau eraill y tîm yw: Caroline Tress, Prif Weithredwr; Tammy Daly, Rheolwr Cyffredinol; Heulwen Davies, Ymgynghorydd Marchnata; Becky Mercer, Cydlynydd Cynulleidfaoedd a Chymunedau, a Simmy Singh, Cysylltai Creadigol.

Dyma rol wych i rhywun sy'n chwilio am y swydd broffesiynol gyntaf o fewn sefydliad celfyddydol, neu rhywun sy'n awyddus i ymestyn ei profiad yn ystod cyfnod cynnar ei gyrfa, gyda phrofiad eang ac ymarferol ar draws y sefydliad. Bydd cyfle i fod yn rhan o bob adran, gan weithio gyda thîm bychan a chefnogol iawn.

**Prif bwrpas y swydd**

Gweithio gyda'r Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau, i helpu gyda'r paratoadau logistaidd ar gyfer holl weithgaredd y gerddorfa, yn cynnwys cynnal a chadw catalog y llyfrgell gerddoriaeth, llogi a pharatoi rhannau offerynnol, gwneud trefniadau llety a theithio ar gyfer y cerddorion, paratoi a rhannu amserlenni i'r cerddorion, y timau technegol a'r canolfannau, a helpu gyda rheoli ymarferion a chyngherddau.
Helpu gyda marchnata a thasgau gweinyddol eraill yn ôl yr angen.

**Prif ddyletswyddau**

Bydd y Cynorthwy-ydd Cyngherddau a Phrosiectau yn darparu cymorth mewn sawl maes, yn cynnwys:

**Ymarferion a Chyngherddau**

- Darparu cymorth i'r Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau i gynnal pob gweithgarwch cerddorfaol a cherddoriaeth siambr.
- Helpu'r Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau i osod y llwyfan ar gyfer ymarferion, cyngherddau a sesiynau recordio.
- Helpu'r Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau gyda phacio a gadael y canolfannau ar ôl pob gweithgarwch.
- Cyfrifoldeb Rheoli Llwyfan, dan gyfarwyddyd y Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau.
- Cynnal perthnasoedd proffesiynol priodol a phositif gyda cherddorion, artistiaid gwadd, cydweithwyr mewn canolfannau, a thimau technegol.
- Sicrhau bod artistiaid a cherddorion gwadd yn cael pob gofal a chefnogaeth i'w galluogi i gael y profiad gorau posibl o weithio gyda Sinfonia Cymru a chyflawni eu nodau arstistig.

**Cynllunio**

- Gwneud trefniadau teithio a llety ar gyfer aelodau o'r gerddorfa ac offerynwyr gwadd, yn unol â chyllidebau'r prosiectau.
- Caffael amcangyfrifon ar gyfer llogi offerynnau taro, offer sain a llwyfannu.
- Cefnogi'r Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau wrth baratoi amserlenni ar gyfer timau mewnol, cerddorion, timau technegol a thimau'r canolfannau.
- Helpu gyda phrosesu taliadau ar gyfer cerddorion a llawryddion.

**Llyfrgell Gerddoriaeth**

- Cyrchu a pharatoi cerddoriaeth a sgorau ar gyfer pob prosiect.
- Marcio'r rhannau gyda chyfarwyddiadau bowio, toriadau, llythrennau ymarfer/rhifau bar a marciau eraill, a chysylltu â'r blaenwyr a'r cerddorion er mwyn cyflawni hyn.
- Padio a di-badio deunyddiau'r gerddorfa ar gyfer ymarferion, cyngherddau, gweithdai a sesiynau recordio.
- Cysylltu â'r Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau a'r Rheolwr Cyffredinol i drafod pa fersiynau i'w defnyddio, trefniannau cerddorfaol a chyllidebau llogi.
- Cadw cofnod cywir o'r gerddoriaeth sy'n eiddo i Sinfonia Cymru.

**Marchnata a Gweinyddu**

- Tynnu lluniau mewn ymarferion a gweithdai er mwyn i'r tîm marchnata eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Ymgymryd â thasgau gweinyddol eraill yn ôl y galw.

**Manyleb Person**

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus gefndir mewn, a brwdfrydedd am, gerddoriaeth glasurol, ynghyd â dealltwriaeth o'r gofynion sydd ynghlwm â gweithio i gerddorfa broffesiynol.

| Profiad, cymwyseddau a sgiliau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Addysg a Chymwysterau | | • Cymhwyster perthnasol ym maes rheoli'r celfyddydau |
| Experience | • Y gallu i weithio'n gyflym a chywir i derfynau amser tyn<br>• Gyrrwr profiadol a hyderus, yn berchen ar drwydded yn y DU<br>• Gwybodaeth o'r sector cerddorfaol clasurol<br>• Profiad o weithio gyda cherddorion proffesiynol<br>• Y gallu i flaenoriaethu<br>• Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm<br>• Y gallu i weithredu a gweithio gyda'r cyfrinachedd perthnasol | • Relevant administration/concert management experience (professional or amateur) |
| Sgiliau a gwybodaeth | • Gwybodaeth o gerddoriaeth glasurol<br>• Y gallu i ddarllen cerddoriaeth<br>• Y gallu i roi sylw i fanylion<br>• Llythrennog a huawdl, gyda'r gallu i drin rhifau, a sgiliau cyfathrebu o'r radd flaenaf<br>• Sgiliau TG o safon uchel, ynghyd â'r gallu i ddysgu pecynnau TG newydd | • Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg |
| Nodweddion personol | • Positif a chydweithredol<br>• Yn wydn yn bersonol<br>• Yn barod i weithio'n galed, yn gallu ffocysu, ac yn ddibynadwy<br>• Yn barod i weithio'n hyblyg fin nos ac ar benwythnosau, yn ôl y galw (darperir amser i ffwrdd in lieu)<br>• Yn hyblyg a pharod i ddysgu | |

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein gweithlu'n cynrychioli pob carfan o gymdeithas, ac estynnwn groeso arbennig i ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli ym maes cerddoriaeth glasurol yn y DU.

**Cyflog ac amodau**

Swydd ran amser, 3 diwrnod yr wythnos, yw hon am dymor penodol o 6 mis ar gyflog o tua £12,300 y flwyddyn (yn seiliedig ar gyflog Cyfwerth ag Amser Llawn o £20,500 y flwyddyn). Mae posibilrwydd y bydd y cytundeb yn cael ei ymestyn tu hwnt i'r 6 mis, yn ddibynnol ar y sefyllfa ariannol.

Sefydliad bychan ydyn ni; rydym yn gweithredu amgylchedd gwaith hyblyg ac yn cynnig trefniant hybrid o weithio o gartref a gweithio o'n hybiau Hafan lleol yng Nghasnewydd, Bro Morgannwg ac Aberystwyth. Disgwylir i ymgeiswyr weithio'n rheolaidd o Fro Morgannwg (lleoliad ein Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau) a Chaerdydd (lleoliad ein llyfrgell gerddoriaeth), a byddant yn teithio'n gyson ledled Cymru gyda'r cerddorion.

Bydd yr hawl i wyliau ar drefniant pro-rata, yn gyfwerth ag amser llawn o 20 diwrnod, ynghyd â gwyliau banc (8). Yn dibynnu ar yr amserlen ymarferion a pherfformiadau, bydd y rôl yn gofyn am weithio'n rheolaidd ar benwythnosau ac allan o oriau swyddfa, a threulio rhai cyfnodau byr oddi cartref.

**Y broses ymgeisio**

Dylid anfon ceisiadau drwy ebost at tammy@sinfonia.cymru. Gofynnir i chi ddarparu CV, ynghyd â chais ysgrifenedig o ddim mwy na dwy dudalen ychwanegol yn mynegi eich diddordeb yn y swydd ac yn nodi beth allech chi ei gyfrannu i Sinfonia Cymru. Dylid cyflwyno'r cais ysgrifenedig yn Gymraeg neu yn Saesneg, a chynnwys y cais llawn mewn un ffeil PDF unigol.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw canol dydd ar 28 Ionawr. Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad ar naill ai 1 neu 2 Chwefror. Byddem yn hoffi i'r ymgeisydd llwyddiannus gychwyn yn y swydd cyn gynted ag y bo modd.**